**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Ebrill y 12fed 2021 trwy linc fideo zoom**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Nesta Roberts, Emlyn Jones, Wenda Williams, Dafydd Williams, Mari Evans a Gwenllian Hughes Jones
**Yn y Gadair:** Cyng Geraint Jones
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Iain Roberts, RG Williams a Wil Evans
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>:** Nid oedd gan y cadeirydd gyhoeddiadau
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 8fed o Fawrth 2021</u>:** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
**4) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
i)Cae Chwarae: Derbyniwyd adroddiad ar ddatblygiad y cae chwarae gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones: Mae'r tai adar wedi cyrraedd ac mae y bin sbwriel hefyd wedi cyrraedd. Cytunwyd i ofyn i Llifon Jones wneud pad concrid ar ei gyfer tra bydd yn gosod tywyrch yn y cae yn fuan. Penderfynwyd i'r clerc ofyn i Steffan Jones o Gyngor Gwynedd os y gwnaiff gweithwyr y Cyngor ei wagio yn rheolaidd o wythnos Sulgwyn ymlaen.
Mae ymholiadau wedi eu gwneud ynghylch cael camerau TCC i fonitro y cae ond nid oes sicrwydd ynghylch effeithlonrwydd y camerau sydd i'w prynu dros y we o ran pwer (mae rhai solar ar gael) ac hefyd nid oes sicrwydd ynghylch cyswllt gwe y camerau. Mae rhai ar gael sy'n cynnwys cerdyn SD er mwyn storio data, ond mae'n debyg na fyddai system o'r fath yn gyfreithlon o ran rheolau diogelu data.
Penderfynwyd i'r clerc holi cwmni sy'n arbenigo mewn gosod camerau TCC am arweiniad yn ogystal a holi Cyngor Tref Dolgellau ynghylch y system sydd ganddynt ym mharc chwarae y dref.
Mae dwy anfoneb wedi eu derbyn gan gwmni Proludic am y matiau gwellt sydd yn £1738 a'r ail am yr offer sydd yn £29,012.74. Cytunwyd i dalu y ddwy.
Mae bil gan gwmni Huws Gray am y tywyrch, sydd yn £420 mae'r Cyng Gwenllian Hughes Jones am ofyn i'r cwmni anfon y bil i'r clerc, cytunwyd i'w dalu. Mae Llifon Jones yn mynd i osod y tywyrch yn unol a'i bris o £480, gofynwyd i dri contractwr arall am brisiau ond nid ydynt wedi cyflwyno pris oherwydd prysurdeb.
Penderynwyd gofyn i Gareth Gough am bris gosod estyniad i ffens y cae i'w gwneud yn uwch.
ii)Materion yr Eglwys Newydd ac archwiliad o'r fynwent: Mae y Cyng Nesta Roberts wedi ei henwi fel prif gyswllt ar gyfer elusen Cyfeillion yr Eglwys Newydd. Mae aelodau y Cyngor am anfon eu dyddiad geni a'u côd post i'r clerc er mwyn iddynt gael eu cofrestru fel ymddiriedolwyr.
Mae'r clerc wedi ceisio cysylltu gyda Scottish Power ynghylch y cyflenwad trydan ond heb gael ateb hyd yma, gobeithir cael ateb erbyn y cyfarfod nesaf.
Nid oedd y Cyng RJ Williams yn bresennol er mwyn cyflwyno adroddiad ar gyflwr y fynwent.
iii)Ymateb Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau: Derbyniwyd ymateb gan Alun Roberts y Peiriannydd ardal ar y materion a godwyd yn mis Chwefror fel a ganlyn:
i)Pont Bodernbwy: Mae'r tyllau yn cael sylw yn ôl yr angen. Mae'r lleoliad yma wedi ei gynnwys ar restr waith ail wynebu dymunol Ardal Dwyfor i'w flaenoriaethu ar sail angen a'r gyllideb sydd ar gael. Nododd yr aelodau fod cyflwr y bont yn prysur ddirywio.
ii)Tai'r Efail a Tŷ'n Rhos Rhoshirwaun: Mae'r tyllau yn cael sylw yn ôl yr angen.
iii)Ffordd o Mynytho am Rhiw: Mae'r ffordd yma wedi ei hychwanegu ar y cylchdaith graeanu ail flaenoriaeth. Mynegwyd anfodlonrwydd ynghylch y penderfyniad i roi y ffordd ar y rhestr ail flaenoriaeth. Penderfynwyd gofyn iddi gael ei rhoi yn ôl ar y rhest blaenoriaeth gyntaf erbyn y gaeaf nesaf.
iv)Canolfan Crud y Werin: Mae'r Cyng Gwenllian Hughes Jones wedi holi y pennaeth ac mae hi yn parhau i aros am ymateb y swyddog addysg.
v)Trefniadau y traeth yn ystod y tymor ymwelwyr: Derbyniwyd llythyr gan Barry Davies, y

Swyddog Morwrol yn datgan na fedr Cyngor Gwynedd osod y byrddau ar y traeth eleni oherwydd nad oes ganddynt y cyllid i'w trwsio a'u darparu. Derbyniwyd llythyr gan Terry Williams, Murmur y Môr yn mynegi pryder ynghylch y sefyllfa.
Mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo yn gryf fod yr Adran Forwrol wedi torri eu gaddewid i osod y byrddau yn flynyddol. Penderfynwyd anfon at Barry Davies i ofyn eto iddo ddarparu y byrddau ac hefyd anfon llythyr at y Grwp Twristiaeth i adael gwybod i'r busnesau lleol fod y Cyngor yn gwrthwynebu penderfyniad yr Adran Forwrol a cheisio cael cefnogaeth yn lleol.
vi)Problem cwn yn rhydd Y Rhiw: Cysylltwyd gyda warden cwn Cyngor Gwynedd ac mae o eisioes yn ymwybodol o'r broblem ac yn cydweithio gyda'r heddlu i geisio datrys y broblem. Cynghorir pobl leol i gysylltu gyda'r heddlu os ydi'r cwn yn cael eu gweld yn rhydd.
vii)Y Queens: Mae trigolion lleol yn awyddus i weld gwell defnydd yn cael ei wneud o'r Queens. Trafodwyd y ffaith fod ymgynghoriad wedi ei wneud yn 2004 ynghylch datblygu adnoddau ar y Queens ond nad oedd llawer o gefnogaeth i'r cynlluniau. Penderfynwyd gofyn i adran AHNE Cyngor Gwynedd os y byddent yn fodlon cefnogi cynllun ar gyfer y safle.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

i)Llythyr gan Sioned Williams parthed gor-yrru ar y B4413: Mae cryn bryder ynghylch gor-yrru ar y ffordd ac mae cais yn cael ei wneud am fesurau er mwyn rheoli cyflymder ar y ffordd, mae 'speed bumps' wedi eu gosod mewn pentrefi eraill yn yr ardal yn ddiweddar a theimla Mrs Williams y byddai 'speed bumps' lleddfu y brobem yn Aberdaron.
Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am fesurwyr cyflymder ger Cwt Chwarel a ger yr ysgol er mwyn casglu data a thystiolaeth o gyfllymder moduron. Hefyd penderfynwyd holi ynghylch y cynllun a drafodwyd rai blynyddoedd yn ôl o gael palmant o stad Bro Hywyn at Caerau, fe fyddai palmant yn sicrhau diogelwch cerddwyr ar hyd ochr y ffordd.

**6) <u>Cynllunio</u>**

Cais C21/0334/30/DT: Addasiad i fynedfa gerbydol, The Wilds, Aberdaron - penderfynwyd anfon at yr adran gynllunio i ofyn y cwestiwn canlynol: Mae amod cynllunio fod perchennog yr eiddo yma yn cau adwy a grewyd pan yn ail ddatblygu y safle rai blynyddoedd yn ôl ond hyd yma nid yw wedi cydymffurfio â'r amod yma. Petai y cais yma yn cael ei ganiatau, a ydi yr amod sy'n gysylltiedig â'r cais blaenorol yn dal i sefyll?

**7)Ariannol**

i)Adroddiad ariannol: Derbyniwyd adroddiad ar sefyllfa ariannol y Cyngor hyd at 31 Mawrth 2021, mae'r costau o fewn y gyllideb a benwyd ar hyn o bryd.
ii)Trefnu archwiliad mewnol i gyfrifon y Cyngor: Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd wneud archwiliad mewnol i gyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 20120-21, fe wnaiff y clerc anfon at Luned Fôn Jones i ofyn i'w hadran wneud yr archwiliad.

**Taliadau**

Awdurdodwyd y clerc i dalu y canlynol:
Iwan Hughes: £177.21
HMRC (Paye): £44.40
Costau clercio: £14.39 (zoom am fis)
Swyddfa Archwilio Cymru: £491.05 (archwiliad)
Proludic:£1,738.80 (grassmats y cae chwarae)
Proludic: £29,012.74 (offer y cae chwarae)
Scottish Power: £217.52 (trydan yr eglwys, amcangyfrif)
Llifon Jones: £480 (gosod tywyrch)
Huws Gray: £420 (tywyrch)

**Derbyniadau**

GD Roberts: £250 (claddu llwch y diweddar Osian Ellis)
Pwyllgor cae chwarae Aberdaron: £25,720
Cyngor Gwynedd: £7,842.81 (grant Cist Gwynedd ar gyfer y cae chwarae)

**8) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

i)Mae twll ar ffordd Bodwyddog (ar y tro ger y fferm) a hefyd rhwng Nant a Nant y Gadwen yn Y Rhiw. Hefyd mae twll rhwng Mae Gwyn a Tir Topyn, Rhoshirwaun.

ii)Mae clo ar y giat sydd ar y llwybr sy’n arwain o Pant Fali i Top Rhos a baw ci ar y llwybr yn ogystal.
iii)Mae Cyngor Gwynedd wedi trwsio gwter ger Bodrydd ond mae pigyn wedi ei adael yn sticio i fyny.
iv)Penderfynwyd trafod ffynhonau dwr yfed yng nghyfarfod mis Mai